






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Grŵp Cynggori Technegol

Archwilio marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 yng Nghymru

24 Mawrth 2021



Archwilio marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 yng Nghymru

Cyflwyniad

Wrth i gyfnod cyntaf pandemig COVID-19 gilio ym mis Gorffennaf, gwnaethom edrych yn ôl yn flaenorol ar y data er mwyn inni ddysgu o'r profiad dychrynlyd o golli bywydau oherwydd y feirws¹. Drwy archwilio marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 yn ystod cyfnod brig cyntaf yr haint, gwnaethom geisio deall beth a achosodd y lledaeniad, beth oedd yn gwneud ein poblogaeth yn agored i niwed a pha bolisiau a allai fod fwyaf effeithiol wrth leihau unrhyw niwed mewn cyfnodau i ddod. Ers hydref 2020, mae ail gyfnod pandemig COVID-19 wedi taro Cymru a'r DU ac mae'n dal i fynd rhagddo. Mae'r naratif isod yn ymchwilio i farwolaethau cysylltiedig â COVID-19 hyd yma ac yn cymharu'r cyfnod cyntaf a'r ail gyfnod ledled Cymru a'r DU.

Canfyddiadau allweddol

- Roedd llai o farwolaethau ychwanegol yng Nghymru na llawer o rannau eraill o'r DU yn ystod cyfnod cyntaf y pandemig ond, ar hyn o bryd, mae'n eithaf tebyg ar gyfer yr ail gyfnod.
- Er bod yr ail gyfnod yn dal i fynd rhagddo, ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o'r rhannau eraill o'r DU yn dangos cyfran is o farwolaethau ychwanegol o gymharu â'r cyfnod cyntaf. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod nifer y marwolaethau mewn rhanbarthau wedi cyrraedd uchafbwynt ar adegau gwahanol.
- Mae angen gwneud mwy o waith ar lefel y DU i ddeall y berthynas rhwng COVID-19, ymyriadau polisi a marwolaethau ym mhob un o'r pedair gwlad, er mwyn inni ddysgu o'n profiad a lliniaru unrhyw niwed yn y dyfodol.

Data

Mae dwy brif ffynhonnell o ystadegau marwolaethau cysylltiedig â COVID-19, sef:

- data gwyliadwriaeth gyflym ar farwolaethau a gynhyrchir gan lechyd Cyhoeddus Cymru (ICC)
- data a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) sy'n seiliedig ar y wybodaeth a gesglir ar y dystysgrif marwolaeth.

Dechreuodd ICC gasglu a chynhyrchu data gwyliadwriaeth er mwyn nodi'r duedd gyffredinol o ran marwolaethau o ganlyniad i COVID-19 yn gynharach. Mae data'r SYG yn rhoi darlun llawnach o'r gyfradd marwolaethau am eu bod yn cynnwys marwolaethau ym mhob lleoliad, gyda data ICC yn nodi marwolaethau mewn ysbytai yn bennaf. Ceir rhagor o wybodaeth sy'n esbonio'r gwahaniaethau rhwng y ddwy ffynhonnell ym [mlog](#) y Prif Ystadegydd.

¹ [Archwilio Marwolaethau Cysylltiedig â COVID-19](#) yng Nghymru, Gorffennaf 2020, Grŵp Cyngori Technegol

Deall y data

Mae nifer o ffyrdd o fesur ac esbonio effaith COVID-19 o ran marwolaethau. Gallwn ddefnyddio cyfanswm y marwolaethau yn ymwneud â COVID-19, ond mae hwn yn fesur bras nad yw'n darparu gwybodaeth fanwl iawn. Yn lle hynny, gallwn ddewis mesur cymharu cymesur, megis nifer y marwolaethau fesul 100,000 o bobl.

Nid yw'r mesur hwn yn ystyried pa mor agored yw poblogaeth i gael ei heintio â COVID-19. Mae angen inni ystyried o hyd y gwahaniaethau mewn demograffeg er mwyn deall effaith wirioneddol y Coronafeirws hwn. Gallwn hefyd ddefnyddio "cyfraddau marwolaethau wedi'u safoni yn ôl oedran". Mae'r rhain yn fesur marwolaethau cymharol gwell rhwng ardaloedd na nifer y marwolaethau, am eu bod yn cyfrif am faint a strwythur oedran y boblogaeth. Fodd bynnag, nid ydynt yn nodi'r amrywiaeth o ffactorau demograffig posibl eraill ac effeithiau anuniongyrchol y pandemig nac yn cyfrif amdanynt.

Bydd y papur hwn yn canolbwyntio, ar y cyfan, ar farwolaethau ychwanegol, sy'n fesur allweddol sy'n cyfrif nifer y marwolaethau mewn blwyddyn benodol.

Diffiniadau

Drwy'r papur hwn, rydym yn cyfeirio at derminoleg benodol, er mwyn esbonio marwolaethau a marwolaethau cysylltiedig â COVID-19. Mae'r adran isod yn esbonio sut mae'r rhain yn cael eu diffinio.

Marwolaethau ychwanegol

Mae hyn yn cyfeirio at y gwahaniaeth rhwng nifer y marwolaethau a gofrestrir dros gyfnod penodol o amser, o'i gymharu â nifer y marwolaethau, ar gyfartaledd, ar gyfer yr un cyfnod dros y pum mlynedd flaenorol. Mae gwerth positif yn golygu ein bod yn gweld mwy o farwolaethau na'r cyfartaledd hanesyddol, tra bod gwerth negatif yn dangos llai o farwolaethau (h.y. dim marwolaethau ychwanegol).

Marwolaethau yn ymwneud /nad ydynt yn ymwneud â COVID-19

Mae marwolaethau yn ymwneud â COVID-19 yn cyfeirio at achosion lle y cyfeiriwyd at COVID-19 unrhyw le ar y dystysgrif marwolaeth fel ffactor a gyfrannodd at y farwolaeth. Mae marwolaethau nad ydynt yn ymwneud â COVID-19 yn cyfeirio at achosion lle na chyfeiriwyd at COVID-19 unrhyw le ar y dystysgrif marwolaeth fel ffactor a gyfrannodd ar y farwolaeth.

Marwolaethau o ganlyniad i COVID-19

Mae'r rhain yn cyfeirio at achosion lle y nodwyd mai COVID-19 oedd achos isorweddol (prif achos) marwolaeth ar y dystysgrif marwolaeth. Hyd at fis Ionawr 2021, roedd 89% o farwolaethau yn ymwneud â COVID-19 a gofrestrwyd yng Nghymru wedi'u hachosi gan COVID-19².

² Dadansoddiad o Farwolaethau Misol, Cymru a Lloegr, [Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)


Yr hyn rydym wedi'i ddysgu hyd yma

Hyd yma, gwyddom mai ymhlith pobl hŷn³, pobl o gefndiroedd pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig⁴ a chymunedau difreintiedig y ceir y cyfraddau marwolaethau uchaf⁵. Mae'r rhan fwyaf o farwolaethau ychwanegol yn farwolaethau yn ymwneud â COVID-19. Fodd bynnag, hyd at fis Rhagfyr 2020, roedd [cyflyrau a fodolai eisoes wedi'u cofnodi](#) yn achos tua 83% o'r marwolaethau o ganlyniad i COVID-19. Mae cyfraddau marwolaethau uwch wedi'u cofnodi mewn cartrefi gofal⁶ ac ymhlith pobl a oedd yn cael gofal cartref⁷. Dengys data ar gyfer Cymru a Lloegr gyfraddau marwolaethau uwch mewn rhai galwedigaethau megis gweithwyr gofal a gweithwyr ffatri⁸.

Dadansoddiad o Farwolaethau Ychwanegol yng Nghymru

Dengys Ffigur 1 nifer y marwolaethau cofrestredig o'r holl achosion ac, o'r rheiny, nifer y marwolaethau cofrestredig a oedd yn ymwneud â COVID-19, yn 2020 ac ar ddechrau 2021. Er mwyn rhoi cyd-destun i'r wybodaeth hon, rydym hefyd yn rhoi'r cyfartaledd pum mlynedd a'r ystod o fewn y pum mlynedd hynny er mwyn deall sut mae'r pandemig yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, megis blynyddoedd lle y cafwyd tymhorau fflw "gwael". Noder, wrth gymharu 2021, mai'r cyfartaledd pum mlynedd yw 2015-19 o hyd, er mwyn cymharu â chyfnod nad effeithiwyd arno gan y pandemig.

Ffigur 1: Nifer y marwolaethau wythnosol a gofrestrwyd, 3 Ionawr 2020 i 26 Chwefror 2021



³ proffil adfer ar ôl COVID-19, [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

⁴ Marwolaethau yn ymwneud â'r Coronafeirws a phob marwolaeth yn ôl grŵp ethnig, [Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

⁵ proffil adfer ar ôl COVID-19 – [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

⁶ COVID-19 a marwolaethau preswylwyr cartrefi gofal, [Ymddiriedolaeth Nuffield](#)

⁷ Marwolaethau yn ymwneud â COVID-19 yn y sector gofal, [Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

⁸ Marwolaethau cysylltiedig â'r Coronafeirws (COVID-19) yn ôl galwedigaeth, [Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

Ffynhonnell: [Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

Dengys y siart, o ddechrau'r pandemig ym mis Mawrth 2020, fod nifer y marwolaethau yng Nghymru islaw'r cyfartaledd pum mlynedd, sy'n dymor fflw eithaf ysgafn. Wrth i gyfnod cyntaf pandemig COVID-19 ddechrau, gwelwn nifer y marwolaethau yn ymwneud â COVID-19 yn cynyddu gan gyrraedd uchafbwynt yn y cyfnod cyntaf yng nghanol mis Ebrill. Yn ystod y cyfnod hwn, cynyddodd y gyfradd marwolaethau o'r holl achosion ar gyfradd debyg. Ar ôl cyrraedd uchafbwynt yng nghanol mis Ebrill, lleihau a wnaeth nifer y marwolaethau yn ymwneud â COVID-19 hyd at ddechrau mis Gorffennaf. Lleihaodd nifer y marwolaethau o'r holl achosion ychydig yn gyflymach na nifer y marwolaethau yn ymwneud â COVID-19. Felly, at ddibenion y dadansoddiad hwn, diffinnir y cyfnod cyntaf o ddiddordeb fel Wythnos 11 i Wythnos 27 (o 7 Mawrth i 3 Gorffennaf 2020).

O fis Gorffennaf ymlaen, dilynodd nifer y marwolaethau o'r holl achosion gyfartaledd pum mlynedd o ran nifer y marwolaethau, fwy neu lai, hyd at ddiwedd mis Medi. Ychydig iawn o farwolaethau yn ymwneud â COVID-19 a gofnodwyd yn ystod y cyfnod hwn. O ddiwedd mis Medi ymlaen, dechreuodd nifer y marwolaethau cofrestredig yn ymwneud â COVID-19 gynyddu. Ochr yn ochr â hyn, cynyddodd nifer y marwolaethau o'r holl achosion nes ei fod uwchlaw'r cyfartaledd pum mlynedd ac mae wedi parhau i fod uwchlaw'r cyfartaledd am weddill 2020 ac ar ddechrau 2021. At ddibenion y dadansoddiad hwn, ystyrir bod yr ail gyfnod o ddiddordeb yn dechrau o Wythnos 40 (o'r wythnos sy'n gorffen ar 2 Hydref).

Dangosodd yr ail gyfnod gynnydd mwy graddol yn nifer y marwolaethau yn ymwneud â COVID-19 na'r cyfnod cyntaf ond dros gyfnod hwy. Cyrhaeddodd yr ail gyfnod uchafbwynt yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 15 Ionawr, gan fynd heibio i uchafbwynt wythnosol y cyfnod cyntaf. Mae'n debygol bod yr oedi cyn cofrestru marwolaethau oherwydd gwyliau banc y Nadolig wedi effeithio ar y data yn ystod pythefnos cyntaf 2021. Er bod yr uchafbwynt o ran nifer y marwolaethau ar gyfer yr ail gyfnod yn fwy na'r cyntaf, fel arfer ceir mwy o farwolaethau yn y gaeaf nag yn y gwanwyn ac, felly, yn y cyfnod cyntaf y ceir yr wythnosau sydd â'r gyfran uchaf o farwolaethau ychwanegol a gofnodwyd o hyd.

Yn ystod ail gyfnod y pandemig, yn anffodus, mae nifer y marwolaethau yn ymwneud â COVID-19 bellach yn fwy nag yn y cyfnod cyntaf. Fel y nodwyd uchod, rydym yn dal i fod yng nghanol ail gyfnod pandemig COVID-19 ledled Cymru a'r DU ac, felly, nid yw'r dadansoddiad o'r ail gyfnod, o reidrwydd, yn rhoi'r darlun terfynol. Mae'r nifer wythnosol o farwolaethau cofrestredig yn ymwneud â COVID-19 yn lleihau ac, os bydd y patrwm hwn yn parhau, mae canrannau'r marwolaethau ychwanegol hefyd yn debygol o leihau ymhellach yn y dadansoddiad cyffredinol a'r dadansoddiad o gyfnod 2.

Bydd y dadansoddiad hwn yn ystyried marwolaethau cofrestredig ar gyfer cyfnod y pandemig hyd yma (yr wythnos yn dechrau 7 Mawrth 2020 i 26 Chwefror 2021), yn ogystal ag ar gyfer dau gyfnod ar wahân – sef Cyfnod 1 (yr wythnos yn dechrau 7 Mawrth i 3 Gorffennaf 2020) a Chyfnod 2 (o'r wythnos a ddaeth i ben ar 2 Hydref i 26 Chwefror 2021) er mwyn ymchwilio i unrhyw newidiadau yn y duedd ers cyfnod cyntaf y pandemig. Noder bod bwlch rhwng y cyfnod cyntaf a'r ail gyfnod ac, felly, na fydd cyfartaledd y rhain yn cyfateb i gyfnod y pandemig. Mae'r dyddiadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn rhoi trosolwg cyffredinol o ddau brif gyfnod y pandemig hyd yma. Ni ddylid ystyried y rhain mewn termau absoliwt, gan y bydd

nifer y marwolaethau mewn ardaloedd gwahanol wedi cyrraedd uchafbwynt ar adegau gwahanol.

Marwolaethau ychwanegol yn ôl gwlad yn y DU, rhanbarthau ac yng Nghymru


Gwledydd y DU a Rhanbarthau Lloegr

Mae Ffigur 2, isod, yn cymharu nifer y marwolaethau ychwanegol rhwng Cymru a gwledydd eraill y DU a rhanbarthau Lloegr. Ers dechrau'r pandemig, mae cyfran y marwolaethau ychwanegol yng Nghymru wedi bod yn is nag yn Lloegr (17.4% o gymharu â 22.2%). Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi effeithio ar wledydd y DU mewn ffyrdd gwahanol rhwng y cyfnod cyntaf a'r ail gyfnod.

Yn ystod cyfnod cyntaf y pandemig, mae gwaith dadansoddi yn awgrymu bod gan Gymru a Gogledd Iwerddon gyfran is o farwolaethau ychwanegol na Lloegr a'r Alban (21.5% a 18.5% o gymharu â 36.0% a 27.1%). Mae'r patrwm wedi newid yn yr ail gyfnod, gyda Chymru yn cofnodi cyfran debyg o farwolaethau ychwanegol i'r cyfnod cyntaf. Yn debyg i Gymru, gwelwyd patrwm tebyg yng Ngogledd Iwerddon ond ar hyn o bryd mae cyfrannau'r marwolaethau ychwanegol yn is yn Lloegr a'r Alban yn yr ail gyfnod.

Mae Ffigur 2 yn ein galluogi i gymharu ymhellach y newid mewn rhanbarthau yn Lloegr rhwng cyfnod cyntaf ac ail gyfnod y pandemig. Yn y cyfnod cyntaf, roedd gan Gymru ganran is o farwolaethau o gymharu â phob un o'r rhanbarthau yn Lloegr ac eithrio'r De-orllewin. Ar gyfer yr ail gyfnod, mae canran gymharol y marwolaethau ychwanegol yng Nghymru wedi bod yn debyg i'r ganran yn rhanbarthau Lloegr. Hyd yma, mae cyfran y marwolaethau ychwanegol ym mhob rhanbarth yn Lloegr wedi bod yn is yn yr ail gyfnod nag yn y cyntaf.

Ffigur 2: Marwolaethau cofrestredig ychwanegol yn ôl gwlad a rhanbarth yn Lloegr a chyfnod, data hyd at 26 Chwefror 2021^{a, b, c}



^a yn seiliedig ar y dyddiad y cofrestrwyd y farwolaeth yn hytrach na'r dyddiad y digwyddodd ac, felly, mae'n bosibl ei fod ychydig yn wahanol i ffigurau eraill. ^b gall yr wythnosau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon fod ychydig yn wahanol i Gymru a Lloegr. ^c cyfnod y pandemig: yr wythnos yn dechrau 7 Mawrth i 26 Chwefror; Cyfnod 1: yr wythnos yn dechrau 7 Mawrth i 3 Gorffennaf 2020; Cyfnod 2: yr wythnos a ddaeth i ben ar 2 Hydref i 26 Chwefror 2021.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata gan y [Swyddfa Ystadegau Gwladol](#), [Cofnodion Cenedlaethol yr Alban](#) ac [Asiantaeth Ymchwil ac Ystadegau Gogledd Iwerddon](#)

Gwledydd Ewropeaidd

Ym mis Mawrth 2021, ar ôl i'r dadansoddiad o'r adroddiad hwn gael ei gwblhau, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol adroddiad⁹ ar gymharu nifer y marwolaethau rhwng gwledydd Ewropeaidd a ddewiswyd ar gyfer 2020. Ni ellir cymharu canlyniadau'r adroddiad hwnnw â'r dadansoddiad yn y papur hwn am ddau reswm, sef:

- Roedd yn cwmpasu cyfnod gwahanol o amser – sef mis Ionawr i fis Rhagfyr 2020 – felly roedd yn cynnwys wythnosau cyntaf 2020 pan oedd cyfraddau marwolaethau, ar y cyfan, islaw'r cyfartaledd ond nid oedd yn cynnwys yr ail uchafbwynt a welwyd ym mis Ionawr 2021.
- Defnyddiodd fethodoleg wahanol, a oedd yn seiliedig ar gymharu cyfraddau marwolaethau wedi'u safoni yn ôl oedran â'r cyfartaledd yn hytrach na chymharu nifer y marwolaethau, fel rydym wedi'i wneud.

Roedd yr adroddiad hwn yn awgrymu mai'r DU a'i gwledydd cyfansoddol a welodd y nifer mwyaf o farwolaethau o blith gwledydd Ewrop yn ystod gwanwyn 2020. Erbyn diwedd 2020, roedd cyfraddau marwolaethau cronol yn y DU a'i gwledydd cyfansoddol uwchlaw'r cyfartaledd ond nid y cyfraddau hyn oedd y rhai uchaf nac isaf yn Ewrop. Yn y DU, mae'r adroddiad yn awgrymu, erbyn diwedd 2020, fod cyfraddau marwolaethau ychwanegol cronol ar eu huchaf yn Lloegr ac ar eu hisaf yng Nghymru. Mae hyn ychydig yn wahanol i'n dadansoddiad, a nododd mai yn Lloegr roedd y lefelau uchaf o farwolaethau ychwanegol, wedi'i dilyn gan Gymru.

⁹ [Cymharu marwolaethau o'r holl achosion rhwng gwledydd a rhanbarthau Ewropeaidd: 2020](#)

Mae'n bosibl bod hyn i'w briodoli i'r gwahaniaethau a nodwyd yn y cyfnodau o amser a gwmpaswyd a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd.

Er bod y tueddiadau hyn yn rhoi darlun ôl-syllol o gyfraddau marwolaethau yn ystod y pandemig, bydd y ffaith bod y feirws wedi lledaenu ar adegau gwahanol ar draws daearyddiaethau gwahanol wedi dylanwadu arnynt.

Dadansoddiad ar lefel islaw lefel Cymru gyfan


Fel rydym wedi'i weld, ledled y DU ceir patrymau rhanbarthol ac, ar hyn o bryd, mae'r rhain yn wahanol i'r hyn a welwyd yn ystod y cyfnod cyntaf. Mae Ffigur 3 yn edrych ar yr amrywiad mewn marwolaethau ychwanegol yng Nghymru.

Ers dechrau'r pandemig, cofnodwyd marwolaethau ychwanegol ym mhob un o'r byrddau iechyd yng Nghymru o gymharu â 2015-19. Roedd hyn yn amrywio o 9.6% ym Mhowys i 27.3% yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Yn ystod cyfnod cyntaf y pandemig, cofnodwyd marwolaethau ychwanegol ym mhob un o'r byrddau iechyd ar gyfer yr holl achosion, gyda chyfran fwy o farwolaethau ychwanegol yn cael ei chofnodi ledled De Cymru.

Yn yr ail gyfnod, mae nifer y marwolaethau ym mhob rhanbarth yn fwy na'r cyfartaledd pum mlynedd, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn cofnodi'r gyfran uchaf o farwolaethau ychwanegol o'r holl achosion (36.3%), wedi'i ddilyn gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (29.7%).

Y ddau fwrdd iechyd â'r poblogaethau mwyaf (sef Betsi Cadwaladr ac Aneurin Bevan) sydd wedi dangos y lefel uchaf o gysondeb o ran canran y marwolaethau ychwanegol yn y cyfnod cyntaf a'r ail gyfnod.

Ffigur 3: Marwolaethau ychwanegol yn ôl bwrdd iechyd, hyd at yr wythnos a ddaeth i ben ar 26 Chwefror 2021^a



^a Cyfnod y pandemig: yr wythnos yn dechrau 7 Mawrth i 26 Chwefror; Cyfnod 1: yr wythnos yn dechrau 7 Mawrth i 3 Gorffennaf 2020; Cyfnod 2: yr wythnos a ddaeth i ben ar 2 Hydref i 26 Chwefror 2021.


Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata gan y [Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

Amddifadedd

Drwy ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, gallwn ddadansoddi ardaloedd yng Nghymru o'r *lleiaf difreintiedig* i'r *mwyaf difreintiedig*. Dengys Ffigur 4 y cyfraddau marwolaethau wedi'u safoni yn ôl oedran rhwng mis Mawrth 2020 a mis Ionawr 2021 yn ôl cwntel amddifadedd.

Yng Nghymru, roedd y gyfradd marwolaethau o ganlyniad i COVID-19 wedi'i safoni yn ôl oedran ar gyfer yr 11 mis rhwng mis Mawrth 2020 a mis Ionawr 2021 yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig bron ddwywaith yn fwy na'r gyfradd marwolaethau yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Er y gallwn weld patrwm tebyg ar gyfer marwolaethau o'r holl achosion, mae'r gwahaniaeth ar gyfer marwolaethau o ganlyniad i COVID-19 yn fwy.

Ffigur 4: Nifer y marwolaethau wedi'u safoni yn ôl oedran fesul 100,000 o bobl yn ôl cwintel amddifadedd, Cymru; Data ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mawrth 2020 a 31 Ionawr 2021



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata gan y [Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

Marwolaethau ychwanegol yng Nghymru yn ôl Achosion

Mae deall sut mae'r pandemig wedi effeithio ar farwolaethau a achoswyd gan ffactorau eraill hefyd yn bwysig er mwyn ystyried cyd-destun ehangach marwolaethau. Mae Ffigur 5 yn ymchwilio i achosion isorweddol cyffredinol categorïau o farwolaethau yn 2020 (heb gynnwys COVID-19), gan ddangos nifer y marwolaethau cofrestredig ar gyfer yr 11 mis ers dechrau'r pandemig hyd at fis Ionawr 2021. Mae'r data hyn yn cynrychioli marwolaethau cofrestredig rhwng mis Mawrth 2020 a 31 Ionawr 2021. Gohirir cofrestru marwolaethau penodol (megis achosion allanol) yn aml oherwydd cwestau crwneriaid ac, felly, nid yw'r tabl hwn, o reidrwydd, yn adlewyrchu'r adeg y digwyddodd y marwolaethau hyn.

Gwelwn fod llai o farwolaethau o *Glefydau anadlol* ac *achosion allanol* yn yr 11 mis o gymharu â chyfartaledd 2015-19. Dengys y data gynnydd yn nifer y marwolaethau o achosion megis *Diabetes Mellitus* (23.4%), *Clefydau'r system nerfol* (heb gynnwys *clefyd Alzheimer*) (18.0%) a *Dementia a Chlefyd Alzheimer* (3.0%). Er bod cyfran fwy o farwolaethau wedi'u hachosi gan *Diabetes Mellitus*, mae'n werth nodi bod y nifer cymharol fach o farwolaethau yn y categori hwn yn golygu bod y cyfrifiad yn fwy sensitif i newid.

Er bod nifer y marwolaethau oherwydd *Dementia a Chlefyd Alzheimer* wedi cynyddu ychydig, nid yw hyn wedi bod yn gyson ar draws yr 11 mis. Rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020, cofnodwyd mwy o farwolaethau na'r cyfartaledd, ond yn fwy diweddar, rhwng mis Hydref 2020 a mis Ionawr 2021, cofnodwyd llai o farwolaethau na'r cyfartaledd. Yn gynharach yn y pandemig, edrychodd y [SYG](#) ar farwolaethau oherwydd *Dementia a Chlefyd Alzheimer*, a rhoddodd rai esboniadau posibl ar gyfer y cynnydd a welwyd yn y cyfnod cyntaf, megis y ffaith ei bod yn anodd adnabod symptomau COVID-19.

Figur 5: Prif achosion marwolaethau cofrestredig, rhwng Mawrth 2020 a mis Ionawr 2021^a

<u>Cod ICD 10</u>	<u>Prif Achos</u>	<u>Cyfrif</u>	<u>Cyfartaledd pum mlynedd</u>	
A00-B99	Clefydau heintus	265	<u>Marwolaethau ychwanegol</u>	
C00-C97 (heb gynnwys C44)	Canser (gan gynnwys:)	8,242	335	-21.0%
C18-C21	Canser y coluddyn	899	8,243	0.0%
C33-C34	Canser yr ysgyfaint	1,627	881	2.1%
C61	Canser y prostad	629	1,759	-7.5%
E10-E14	Diabetes Mellitus	420	548	14.7%
F00, F01, F03, G30	Dementia a chlefyd Alzheimer	3,451	340	23.4%
G00-G99 heb gynnwys G30	Clefydau'r system nerfol heb gynnwys clefyd	896	3,351	3.0%
I00-I99	Alzheimer	7,799	759	18.0%
I20-I25	Cylchredol (gan gynnwys:)	3,369	7,853	-0.7%
I60-I69	Clefyd coronaidd y galon	1,739	3,509	-4.0%
J00-J99	Serebro-fasgwlaidd	3,431	1,859	-6.5%
J09-J18	Anadlol (gan gynnwys:)	1,166	4,644	-26.1%
J40-J47	Ffliw a niwmonia	1,543	1,935	-39.7%
K00-K99	Clefydau cronig y system anadlu isaf	1,576	1,864	-17.2%
K70-K76	Treuliol (gan gynnwys:)	582	1,525	3.3%
N00-N99	Sirosis a chlefydau eraill yr afu	564	516	12.8%
V00-Y99	Cenhedlwl-wrinol	1,002	576	-2.1%
<u>V01-X59</u>	Allanol (gan gynnwys:)	<u>714</u>	<u>1,242</u>	<u>-19.3%</u>
	<u>Damweiniau</u>		<u>865</u>	<u>-17.4%</u>

^a Disgwyllir amrywiadau mewn tueddiadau oherwydd y niferoedd llai a gofnodwyd o ganlyniad i rannu'r categorïau o achosion isorweddol, ar y cyd â data misol byrrach lle y byddai prosesau adrodd blynyddol yn cael eu hunioni fel arfer.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata SYG gan [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

Marwolaethau yn ôl lleoliad

Dengys Ffigur 6 y dadansoddiad o farwolaethau ychwanegol yn ôl lleoliad, wythnos ac achosion (sy'n ymwneud/nad ydynt yn ymwneud â COVID-19). Os yw'r data uwchlaw sero, mae hyn yn golygu bod mwy o farwolaethau na'r cyfartaledd pum mlynedd. Mae hyn yn nodi marwolaethau ymhlith trigolion Cymru ac, felly, mae'n bosibl bod rhai o'r unigolion hyn wedi marw y tu allan i Gymru (h.y. mewn ysbytai yn Lloegr). Mae marwolaethau mewn cartrefi gofal yn cyfeirio at farwolaethau a ddigwyddodd yn y lleoliad ac nid at breswylwyr cartrefi gofal (a allai fod wedi marw mewn lleoliadau eraill).


Dengys cornel chwith uchaf y siart y newid yn nifer y marwolaethau a ddigwyddodd mewn ysbytai o gymharu â'r cyfartaledd pum mlynedd. Ers dechrau'r pandemig yn wythnos 11, roedd nifer y marwolaethau nad oeddent yn ymwneud â COVID-19, ar y cyfan, islaw'r cyfartaledd pum mlynedd, gyda marwolaethau ychwanegol i'w priodoli'n bennaf i farwolaethau

yn ymwneud â COVID-19. Dengys y siart ddau uchafbwynt ar wahân ar gyfer marwolaethau yn ymwneud â COVID-19. Drwy gymharu'r ddau ddosbarthiad, gwelwn fod lefelau marwolaethau ychwanegol wedi parhau am fwy o amser yn yr ail gyfnod nag yn y cyfnod cyntaf.

Dengys marwolaethau a ddigwyddodd gartref (cornel dde uchaf y siart), ers dechrau'r pandemig, fod mwy o farwolaethau gartref na'r cyfartaledd pum mlynedd. Yn wahanol i farwolaethau a ddigwyddodd mewn ysbytai, mae marwolaethau ychwanegol i'w priodoli'n bennaf i farwolaethau nad oeddent yn ymwneud â COVID-19.

Ar gyfer marwolaethau mewn cartrefi gofal (cornel chwith isaf y siart), gwelwn gynnydd mwy sylweddol tuag wythnos 17. Mae'r marwolaethau ychwanegol a welir yn y lleoliad hwn i'w priodoli i gymysgedd o farwolaethau yn ymwneud â COVID-19 a marwolaethau nad oeddent yn ymwneud â COVID-19. Mae nifer wythnosol y marwolaethau ychwanegol a welir yn yr ail gyfnod yn is na'r nifer a gofnodwyd yn y cyfnod cyntaf ar hyn o bryd. Mae'n bosibl bod hyn i'w briodoli i'r ffaith bod gwell protocolau ar waith i atal lledaeniad y feirws mewn cartrefi gofal yn y lle cyntaf a/neu'r ffaith y gallai preswylwyr cartrefi gofal fod wedi cael eu trosglwyddo i leoliadau gwahanol (h.y. ysbytai) ac wedi marw yno wedyn.

Ffigur 6: Marwolaethau ychwanegol yn ôl lleoliad ac achosion marwolaeth, hyd at wythnos 8 2021.



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r [Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

Casgliadau a Meysydd ar gyfer Gwaith Pellach

Yn ystod y pandemig hyd yma, mae lefelau marwolaethau ychwanegol wedi bod yn is yng Nghymru o gymharu â rhai rhannau o'r DU. Fodd bynnag, nid yw lefel y marwolaethau ychwanegol wedi newid fawr ddim yng Nghymru rhwng cyfnod 1 a chyfnod 2, tra bod nifer y marwolaethau ychwanegol wedi lleihau'n sylweddol yn yr Alban ac mewn llawer o ranbarthau yn Lloegr. Bu cryn amrywio yng Nghymru, gyda

Bae Abertawe a Hywel Dda yn cofnodi cynnydd cymharol fawr yn nifer y marwolaethau ychwanegol, Caerdydd a'r Fro yn cofnodi gostyngiad sylweddol mewn cyfraddau ond Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg yn cofnodi cyfraddau cymharol uchel ar gyfer y ddau gyfnod. Nid yw'r rhesymau dros y patrymau gwahanol wedi eu deall yn llawn eto ond mae'n bosibl eu bod yn adlewyrchu lledaeniad daearyddol gwahanol y feirws ar adegau gwahanol o'r flwyddyn.

Mae brechlynnau bellach yn cael eu cyflwyno ledled Cymru ac ar 9 Mawrth nodwyd bod mwy na miliwn o frechiadau wedi'u rhoi. Er bod y rhaglen frechu bellach ar waith, oherwydd amseriadau'r data a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn, mae'n rhy gynnar i ddod i unrhyw gasgliadau pendant ynghylch yr effaith y mae'r brechlyn wedi'i chael ar gyfraddau marwolaethau. Mae gwaith yn mynd rhagddo ledled y DU i asesu effaith y brechlyn ar gyfraddau marwolaethau.

Er bod edrych yn ôl yn bwysig i asesu beth y gallwn ei ddysgu o'r pandemig, mae hefyd yn codi cwestiynau newydd. Fel yn yr adroddiad ar farwolaethau ychwanegol, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020, mae ein cwestiynau yn canolbwyntio ar b'un a oes ffactorau y gall y Llywodraeth ddylanwadu arnynt er mwyn lleihau'r niwed a achosir gan COVID-19 yng Nghymru a'r DU.

- Ffactorau y gellir eu rheoli:
 - A gafodd ymyriadau nad oeddent yn gyfyngiadau symud effaith sylweddol? ○ A gafodd ymyriadau ar ffurf cyfyngiadau symud unrhyw effaith sylweddol?
 - Pa effaith a chatau gweithredu a gyflwynwyd i leihau heintiau nosocomiaidd mewn gwahanol leoliadau?
- Cwestiynau ehangach/ar gyfer y dyfodol
 - Pa effaith y mae ymddangosiad amrywiolynnau newydd o COVID-19 wedi'i chael ar gyfraddau marwolaethau?
 - Beth fydd effaith hirdymor y pandemig ar farwolaethau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf oherwydd yr ôl-groniad o driniaethau a ohiriwyd?
 - Faint o amser y bydd yn ei gymryd i'r rhaglen frechu ddechrau gweld y manteision? ○ Beth yw'r ffactorau cyfyngu mwyaf sy'n golygu bod anghydraddoldebau o ran marwolaethau o ganlyniad i COVID-19 yn ehangach nag ar gyfer clefydau eraill; ai tai, galwedigaeth, ymddygiadau iechyd, yr amser a gymerir i geisio cymorth, ac ati, ydynt? ○ Sut mae'r brechlyn wedi effeithio ar gyfraddau marwolaethau? ○ A yw'r rhaglen frechu wedi effeithio ar anghydraddoldebau iechyd absoliwt a chymharol?
 - Beth yw effeithiau iechyd hirdymor cael COVID-19 ar gyfraddau marwolaethau o'r holl achosion? Er enghraifft, a fydd nifer y marwolaethau o achosion eraill ymhlith pobl sydd wedi goroesi COVID-19 yn cynyddu, yn enwedig y rhai y mae nifer o'u systemau wedi'u niweidio?
 - A nodwyd unrhyw gysylltiad rhwng rheoli cyflyrau hirdymor megis diabetes yn ystod y pandemig â marwolaethau oherwydd y cyflyrau hyn?